

**CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 3) 2020**

1. Ar 30 Mehefin 2020 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y cyfyngiad parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2020 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyrac ac fe'i gelwir - "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 3) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 6 Gorffennaf 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Diwygir y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Gwaharddiad arfaethedig ar aros.

St Brides Road, y Wig

Ar yr ochr dde-orllewinol o ochr ogledd-orllewinol St James Road i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 66 metr.

Ar yr ochr dde-orllewinol o ochr dde-ddwyrainol St James Road i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o oddeutu 52 metr.

St James Road, y Wig.

Ar y ddwy ochr o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol St Brides Road i gyfeiriad y de-orllewin am 10 metr.

Dyddiad: 2 Gorffennaf 2020.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alps, Gwenfô, CF5 6AA